

# Gweithdy Rhithiol: Darganfod Deinosoriaid

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'n **Gweithdy Darganfod Deinosoriaid** yn fuan. Dyma rai syniadau a weithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw, i helpu'r disgyblion wneud y gorau o'r gweithdai:

## Gwyliwch ein fideo cyflwyno Oriel Esblygiad Cymru

https://youtu.be/j_VrhspV3_E
Fersiwn BSL: https://youtu.be/-xqqeg7hNFM

Dysgu mwy am y deinosoriaid yn yr oriel Esblygiad Cymru a chwrdd â Lucy, un o'n palaeontolegwyr.

## Ewch ar daith rithwir drwy Oriel Esblygiad

https://my.matterport.com/show/?m=9D1eaaBaiNB

Crwydrwch yr oriel a chyfarfod y deinosoriaid! Ar ôl y daith, trafodwch gyda'r dosbarth/grŵp **– sut mae ffosil yn cyrraedd yr Amgueddfa?**

## Gweithgaredd Enwau Deinosoriaid

Dysgwch sut fydd deinosoriaid yn cael eu henwi, a rhowch gynnig ar ddyfeisio deinosor eich hun! **Taflen waith PDF ynghlwm.**

## Gweithgaredd Ôl-troed Deinosor

Dysgwch pa mor fawr oedd *T. rex* drwy gymharu eich olion traed chi. **Taflen waith PDF ynghlwm.**

# Beth i’w ddisgwyl:

Gweithiwch gydag un o'n hwyluswyr i ganfod ffosilau ac esgyrn go iawn, dysgu sut i feddwl fel palaeontolegydd, a datrys cyfres o bosau deinosoriaid. Gyda'r sgiliau hyn, gallwch chi astudio deinosor Cymreig – y Dracoraptor! Byddwch chi'n defnyddio gwybodaeth wyddonol i ddysgu sut cafodd y deinosor ei ganfod, sut fyddai'n byw ac ymhle, sut fyddai'n bwyta a sut olwg oedd arno.

**Bydd y gweithdy rhwng 45 munud ac awr o hyd.**



Gweithdy rhyngweithiol yw hwn,
a bydd yr hwylusydd yn holi ac ateb cwestiynau.
Er mwyn i’r dosbarth gael y gorau o’r sesiwn, cofiwch:

- Gosodwch y camera fel ein bod ni’n gallu gweld y dosbarth cyfan
- Gwnewch yn siŵr bod y dosbarth cyfan yn gallu gweld a chlywed
- Meddyliwch am y ffordd orau i’r dosbarth holi ac ateb cwestiynau. Gallwch chi wneud hyn drwy’r athro, neu greu ‘man siarad’ lle gall y plant sefyll yn eu tro
- Bod yn bresennol a chyfrifol am y disgyblion trwy gydol y sesiwn a rheoli’r dosbarth
- Sicrhau bod eich cyfrifiadur ymlaen a bod y cysylltiadau yn gweithio 15 munud cyn y gweithdy. Bydd yr hwylusydd ar gael am 5/10 munud cyn y gweithdy i ateb cwestiynau’r athro.


**Bydd y ddolen Teams i ymuno â’r gweithdy yn yr e-bost cadarnhau.**

# Ar ôl y Gweithdy Darganfod Deinosoriaid:

## E-lyfr Ditectifs Deinosoriaid

Chwiliwch am ffosil deinosor, dysgwch am fwyd y deinosoriaid a rhyfeddwch at ba mor fawr oedd traed T. rex drwy gyfrwng gemau a posau. Mae'n gyfle hefyd i gwrdd â'r deinosor Cymreig newydd, *Dracoraptor hanigani*.

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/323/E-lyfr---Ditectifs-y-Deinosoriaid/




## Llyfr Gweithgareddau Deinosoriaid yng Nghymru

Defnyddiwch Lyfr Gweithgareddau Deinosoriaid yng Nghymru a'r paneli arddangosfa i ddysgu mwy am Dracoraptor.

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/324/Llyfr-Gweithgareddau-Deinosoriaid-yng-Nghymru/




## 'Top Trumps' Deinosoriaid

Lawrlwythwch, printiwch a thorri cardiau 'Top Trumps' deinosoriaid am hwyl rarrrrgh-bennig!

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/407/Deinosoriaid-Yr-Amgueddfa/




## Planhigion y Deinosoriaid

Mae rhai planhigion o oes y deinosoriaid yn dal yn fyw heddiw! Allwch chi weld unrhyw rai o'r planhigion hyn?

https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/406/Planhigion-y-Deinosoriaid/

